# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 19EG EBRILL, 2018**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 11 Ebrill 2018)

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Berwyn Parry Jones
Catrin Wager
Simon Glyn
Annwen Hughes
Linda Morgan
Gethin Glyn Williams
Aled Wyn Jones
Edgar Wyn Owen
Gruffydd Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick
Kevin Morris Jones
Elwyn Jones
Keith Jones
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Owain Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22.2.18 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARAID YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG 9 - 29

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Derbyn diweddariad ar waith yr ymchwiliad

## 6. TORRI GWAIR - TIROEDD AGORED Y CYNGOR 30 - 31

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Griffith**

Ystyried adroddiad Pennaeth Priffyrdd a  Bwrdeistrefol

## 7. TREIAL GORFODAETH STRYD 32 - 33

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Griffith**

Ystyried adroddiad Pennaeth Priffyrdd a  Bwrdeistrefol

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 22 CHWEFROR 2018

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Peter Garlick, Simon Glyn (Cadeiry, Annwen Hughes, Aled W Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gruffydd Williams ac Owain Williams,

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Janet Roberts (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Meirion Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd) a Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr)

Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Nia Haf Davies (Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) a'r Cynghorydd Aled Evans (aelod o'r gweithgor)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Berwyn Parry Jones Keith Jones a Gethin Glyn Williams

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Seimon Glyn oedd wedi colli ei dad yn ddiweddar

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 07.12 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – Y CYNLLUN LLESIANT (drafft)**

Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor yn gofyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu cynnwys Cynllun Llesiant (drafft) Gwynedd a Môn a chyflwyno unrhyw sylwadau. Eglurwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddilyniant o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a bod awydd a phenderfyniad i weithredu yn wahanol i'r Bwrdd blaenorol i sicrhau gwahaniaeth. Adroddwyd mai cam cyntaf y broses oedd cyhoeddi cynllun llesiant oedd yn amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion y ddwy Sir. Ategwyd bod cyfnod o dri mis o ymgynghori statudol ar y cynllun oedd yn amlinellu'r egwyddorion yn fras (fyddai yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth) ac yn dilyn y cyfnod yma bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion cyn llunio Cynllun Llesiant terfynol.

Amlygodd yr Arweinydd, fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei fod yn edrych ymlaen at greu partneriaethau newydd fyddai yn datblygu prosiectau. Derbyniwyd y gall fod yn ddiwydiant 'creu geiriau', ond yr ewyllys yw gweld canlyniadau drwy ymateb i'r her o weithio mewn dulliau gwahanol. Gyda dyfodiad yr ardaloedd llesiant hyn yn galluogi canolbwyntio o few ardaloedd penodol - adnabod anghenion ardaloedd gwahanol - anelu gwaith i'r mannau sydd angen sylw.

Pwysleisiwyd mai un o'r partneriaid yw Cyngor Gwynedd ac mai penderfyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd cynnwys y cynllun terfynol.

Ategwyd bod ymdrech i greu dogfen ddealladwy fyddai yn cynnal sgwrs gyda chymunedau drwy geisio diffinio lles. Anogwyd yr Aelodau i annog pobl i wneud sylwadau ar y ddogfen ymgynghori.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod y ddogfen yn un i'w chroesawu sydd yn adnabod materion a dyheadau dealladwy.
- Anodd yw cyfarch a gweithredu. Er canmol yr hyn sydd angen sylw, dim adnodd i weithredu.
- Methiant nad oedd datrysiadau e.e., elfennau o annog cydweithio, wedi eu cynnwys. Dechrau da, ond angen gosod targedau ac ymgysylltu yn effeithiol.
- Angen cynnig rhesymau i bobl aros yng Ngwynedd
- Y ddogfen yn gosod sylfaen dda ond dim gwerth os nad oes gweithrediad.
- Bydd rhaid newid diwylliant os am weithredu yn effeithiol
- Croesawu gwaith ymchwil cefndirol da sydd yn gosod sylfaen i symud ymlaen
- Derbyn bod angen gosod blaenoriaethau megis yr Iaith Gymraeg, Iechyd a Thlodi, ond angen gweld grymuso cymunedau yn ganolig i bob dim gan ystyried prosiectau fyddai'n arbed arian.
- Gweithredu ar gyflwyniad deddfau Llywodraeth Cymru ond dim adnodd i weithredu.
- Swyddi o safon uchel yn allweddol, ond dim awgrym sut i'w cael. Canolrif cyflog Môn yn uwch na ffigwr Cymru gyfan – sut all Môn, fel Sir gyfochrog, fod gymaint uwch na Gwynedd? Gofynwyd am wybodaeth manwl gan yr Uwch Reolwr Cefngoaeth Gorforaethol.
- Bod yr economi yn hanfodol bwysig.
- Cyllid yn ffactor sydd yn cyfyngu'r gallu i gyflawni - angen ceisio meddwl mewn dulliau gwahanol
- Rhaid blaenoriaethu swyddi gwerth uchel a chyflenwad tai i annog pobl i aros yn lleol
- Awgrym creu Pencampwr Swyddi

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r economi, eglurwyd bod y Cyngor wedi adnabod bod cydweithio ar draws y Gogledd yn gweithio, ond o safbwynt adfywio cymunedol, derbyniwyd nad oedd digon o sylw wedi ei roi i'r mater. Cyfeiriwyd at strategaeth y

Gweinidog lle amlygir yr angen am economi sylfaenol a bod swyddi unigol bach yn cynnal cymdeithasau. Er canolbwyntio ar y cynlluniau mawr e.e., Twf, rhaid edrych ar yr ardaloedd gwledig i gynnal yr economi sylfaenol, a chanfod cynlluniau a thargedu cymorth economaidd.

Cytunwyd bod cyllid yn ffactor sy'n cyfyngu'r hyn sydd eisoes yn uchelgeisiol a'r hyn sydd angen ei gyflawni, ond rhaid ystyried dulliau sydd ddim yn gofyn am arian sylweddol ond yn cael effaith cystal. Gwaith y Bwrdd Gwasanaethau fydd datblygu ffyrdd o weithio yn wahanol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phrosiectau Hamdden a dyfodiad Bwrdd Hamdden newydd i Wynedd, nodwyd petai unrhyw brosiect yn ymwneud â hamdden yn cael ei ystyried, y bwriad fydd gwahodd cynrychiolaeth Hamdden i'r trafodaethau i ddatblygu prosiectau fyddai'n berthnasol i'r maes. Y bwriad yw adnabod partneriaid ar gyfer prosiectau unigol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryd fydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno, adroddwyd bod y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fai 2018. Yn dilyn hynny bydd angen creu amserlen i weithredu. Ategwyd na fyddai dogfen bwrpasol yn cael ei chreu, ond y bwriad fydd cyhoeddi amserlen fesul cynllun.

Nodwyd bod y cynllun yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir. Derbyniwyd bod dyletswydd statudol ar y Pwyllgor Craffu i graffu cynnwys y ddogfen fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun. Nodwyd dymuniad y Pwyllgor i'r Bwrdd Gwasanaethau raglennu amserlen bendant i'r cynllun a chael eu diweddaru ar hyd y broses drwy dderbyn adroddiadau cynnydd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad**

## 6. CYDBWYSEDD CYNALIADWYEDD – STATWS AWYR DYWYLL

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn dilyn cais gan y Pwyllgor Craffu am fwy o wybodaeth ynglŷn â Statws Awyr Dywyll. Adroddwyd ar fanylion cefndirol ynghyd a manteision i ddynodiad ardal o warchodfa awyr dywyll.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod manteision amlwg i'r statws, yn enwedig ei effaith ar yr amgylchedd a byd natur
- Bod newidiadau i oleuadau stryd wedi cael effaith bositif
- Bod angen sicrhau cydbwysedd statws yn erbyn iechyd a diogelwch
- Rhaid rhoi ystyriaeth i bryderon cymunedau lleol
- Wrth ystyried dynodiad awyr dywyll i Lŷn angen gosod cyd-destun
- Ni ddylid defnyddio polisïau i wrthod ceisiadau yng nghyd-destun diogelwch
- Bod angen cynllun rheoli i fesur effaith - awgrym i osod gwaelodlin a mesur yr effaith mae unrhyw newidiadau wedi ei gael ar yr amgylchedd, er enghraifft.

Croesawyd y sylw o ddarparu cynllun rheoli. Mewn ymateb i'r sylwadau ynglŷn â chanfod cydbwysedd statws yn erbyn iechyd a diogelwch nodwyd bod nifer o ystyriaethau ynglŷn â sicrhau statws awyr dywyll. Gyda phob achos yn unigryw, ategwyd bod rhaid cydbwyso a dehongli tystiolaeth ar gyfer pob achos yn ei dro.

Derbyniwyd y wybodaeth

## 7. CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd am y cynllun dirprwyo cynllunio (drafft) newydd oedd yn cynnwys yr addasiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu. Atgoffwyd yr Aelodau bod ymchwiliad craffu i faes cynllunio wedi cael ei gwblhau gan Aelodau o’r Pwyllgor Craffu a bod y cynllun dirprwyo yn un o’r meysydd gafodd ei ymchwilio. Un o argymhellion yr ymchwiliad craffu hwnnw oedd addasu trothwyon y cynllun dirprwyo. Cyfeiriwyd at y cynllun dirprwyo arfaethedig oedd wedi ei gynnwys gyda’r adroddiad ynghyd a’r buddion amlwg ac eang o weithredu’r newidiadau.

Amlygwyd mai un o’r buddion hynny fyddai cyfeirio llai o geisiadau i raglen y Pwyllgor Cynllunio. Ar sail y canran uchel o geisiadau sydd yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd, nodwyd y byddai’r newidiadau yn sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ymdrin â materion sydd o wir ddiddordeb iddynt yn unig. Byddai hyn yn gwneud y defnydd gorau o amser ac arbenigedd aelodau’r Pwyllgor a’r swyddogion perthnasol.

Cydnabuwyd a chefnogwyd fod yr hawl sydd gan yr Aelod Lleol neu ddau aelod arall i alw cais i bwyllgor o dan amgylchiadau penodol, yn parhau fel y sefyllfa bresennol ac ystyriwyd hyn yn dderbyniol.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor gadarnhau a chefnogi’r drafft o’r cynllun dirprwyo arfaethedig cyn ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro gan ei fod yn fater cyfansoddiadol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Nad yw nifer y ceisiadau sydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn ormodol. Pwrpas y Pwyllgor Cynllunio yw gwneud penderfyniadau.
- Hapus gyda’r drefn bresennol – angen cadw at drefn ddemocrataidd
- Derbyn bod y newidiadau yn arbed adnoddau ac amser, ond a yw hyn yn golygu y byddai ceisiadau sydd yn peidio cael eu cyfeirio at bwyllgor yn derbyn llai o sylw
- Angen ystyried natur y gwrthwynebiadau yn hytrach na’r niferoedd
- Dylid ystyried cyflwyno cais i bwyllgor ‘fyddai o ddiddordeb’ - bod hyn a hyn o ohebiaeth yn golygu ‘creu diddordeb’ hyd yn oed os mai un rheswm yn unig sydd dros wrthod / caniatáu.
- Derbyn bod gan yr Aelodau Lleol hawl i gyfeirio cais i Bwyllgor - hyn yn fanteisiol ac yn sicrhau'r farn leol. Er hynny, gall greu sefyllfa fregus i Aelodau Lleol os yn agored i gyhuddiadau am eu barn.
- Er mwyn rhoi ystyriaeth i’r sefyllfa hyd yn hyn, gofynnwyd am wybodaeth gan yr Uwch Reolwr Cynllunio am faint o geisiadau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Cynllunio, faint o’r ceisiadau hynny a aeth i apêl a faint o’r apeliadau a lwyddodd.

Mewn ymateb i’r sylwadau nododd yr Uwch Gyfreithiwr bod angen cael cydbwysedd ac nad oedd y newidiadau yn cwestiynu sut mae’r Pwyllgor Cynllunio yn gwneud penderfyniadau. Amlygodd bod gan yr Aelodau rôl allweddol i gyfeirio ceisiadau ymlaen er mwyn sicrhau'r elfen leol. Pwrpas y newidiadau yw sicrhau bod y ceisiadau sydd yn cael eu trafod yn y pwyllgor yn rhai o sylwedd.

Mewn ymateb i’r sylwadau nododd yr Uwch Reolwr Cynllunio bod yr holl faterion wedi cael eu hystyried yn fanwl gan aelodau’r ymchwiliad a bod y newidiadau a gynigwyd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu. Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â gohebiaeth nodwyd nad oedd unrhyw resymeg dros 3 neu fwy o ohebiaeth - ystyriaethau cynllunio yn unig oedd yn cael eu cyfarch. Pwysleisiodd y byddai pob gohebiaeth yn cael sylw a bod cyfle yma i gryfhau rôl yr aelod lleol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut y byddai’r newidiadau yn lleihau risg, adroddwyd bod y cyfnod penodol statudol o 8 wythnos i gyflwyno cais yn gosod her o adrodd ac

amserlennu cyflwyno y cais i bwyllgor ar amser priodol. Os na all y gwasanaeth weithredu o fewn yr 8 wythnos bydd y Cyngor yn agored i apêl o ad-dalu ffi i'r ymgeisydd ynghyd a chostau. Nodwyd bod yr apeliadau hyn yn heriol oherwydd pwysau gwaith ac felly yn cael ei ystyried fel risg posib

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyflwyno gwybodaeth am y newidiadau gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, amlygwyd bod sesiwn rhannu gwybodaeth wedi ei gynnal Rhagfyr 2017.

Derbyniodd yr Aelod Cabinet bod gwaith y Pwyllgor Cynllunio yn drwm a bod angen sicrhau bod y ceisiadau hynny sydd angen sylw yn cael gwrandawiad teg. Ychwanegodd ei fod yn gweithredu ar argymhelliad yr ymchwiliad.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, er nad oedd y penderfyniad yn unfrydol.

## 8. DIWEDDARIAD YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

(Cadeiriwyd yr eitem yma gan Is Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Mike Stevens, gan fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Seimon Glyn yn aelod o'r ymchwiliad).

Croesawyd y Cynghorydd Aled Evans i'r cyfarfod oedd yn aelod o'r ymchwiliad ac yn cynrychioli'r Pwyllgor Iaith)

Cyflwynwyd diweddariad ar yr ymchwiliad craffu i gynllunio a'r iaith Gymraeg gan gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Gruffydd Williams. Tynnwyd sylw at y prif ganfyddiadau ac amlygodd y byddai'r canfyddiadau, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cynnwys mewn adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd 9.3.18.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod niferoedd siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn disgyn ac felly angen gwneud rhywbeth i gynnal hyn
- Rhaid i asesiad iaith fod yn annibynnol ac yn dryloyw. Croesawu hyn fel cam pendant ymlaen
- Awgrym i ystyried 3 annedd mewn datblygiad ar hap yn hytrach na 5
- Bod angen ystyried effaith cronnol
- Bod angen gwybodaeth am effaith y datblygiadau

Cymeradwywyd y gwaith hyd yn hyn ynghyd a'r camau nesaf. Ategwyd bod angen i'r wybodaeth fod yn gadarn a bod iaith yn rhan annatod i'r drefn cynllunio yma yng Ngwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12pm

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad | 19 Ebrill 2018 |
| Pwnc | **Cynllunio a'r Iaith Gymraeg** |
| Cyfeirnod Log Craffu | C10 |

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried yr argymhelliad isod.

**Bod y *Pwyllgor Craffu Cymunedau'n* argymell bod y *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* yn ystyried *Argymhellion a Sylwadau/Cwestiynau pellach y Gweithgor ac Ymatebion y Panel* (Atodiad 1) gan gyfarch y materion a nodir cyn bwrw ymlaen gyda'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Canllaw Cynllunio Atodol.**

**Cyfarfod Llawn Cyngor Gwynedd – 28 Gorffennaf 2017**

*1* Cynhaliwyd Cyfarfod llawn o Gyngor Gwynedd ar 28 Gorffennaf 2017 i ystyried Adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a oedd yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.*

2 Nodwyd sylwadau ieithyddol a ganlyn o blaid yr argymhelliad:

- Y dylid mabwysiadu'r Cynllun yn llawn oherwydd heb gynllun datblygu ni fydd rheolaeth dros safleoedd tu allan i'r ffiniau datblygu fyddai'n arwain at effeithiau negyddol cymdeithasol ac ieithyddol.
- Byddai gwrthod yn gwneud mwy o ddrwg i'r iaith.
- Derbyn nad yw'n gynllun perffaith ond dogfen fyw yw'r adroddiad gyda chyfle i addasu'n flynyddol, yn unol â'r angen, drwy gynnal trafodaethau, adolygu a monitro rheolaidd.
- Bod modd cynllunio canllawiau atodol unigryw i Wynedd fydd yn amddiffyn ein cymunedau ac nid eu difa.
- Bod cenhadu dros ddefnydd y Gymraeg ar draws holl Awdurdodau Cymru yn parhau'n flaengar. Dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar swyddi da yn lleol, polisi iaith ein hysgolion a statws iaith mewn cymunedau.
- Os na fuasai Cynghorwyr Gwynedd yn derbyn y cyfrifoldeb, byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei daflu i Gaerdydd at Weinidog nad yw'r un mor gydymdeimladwy.

3 Nodwyd sylwadau ieithyddol a ganlyn yn erbyn yr argymhelliad:

- Nad oedd unrhyw addasiad wedi'i wneud i'r ffigyrau tai a gytunwyd yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 a oedd yn dangos gostyngiad o 4% yn nifer siaradwyr Cymraeg.
- Bod cais am wybodaeth parthed effaith datblygiadau ar yr iaith ers 2011 heb ddod i law a heb yr wybodaeth yma, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i dderbyn y Cynllun.
- Bod 1700 o sylwadau wedi'u cynnig yn ystod ymgynghoriad 2015 - llawer o'r sylwadau yn wrthwynebiadau, ond nifer wedi'u diystyru gan fod y Cyngor yn honni nad oedd tystiolaeth rymus i'w cefnogi.
- Bod manylion a thystiolaeth adroddiad annibynnol o effaith andwyol y Cynllun ar yr iaith heb ei ystyried.
- Bod angen gwrthod yr argymhelliad a cheisio cyfle i addasu'r Cynllun yn briodol a chyflwyno cynllun mentrus a blaengar fyddai'n addas i'n cymunedau Cymraeg.

4 Gwnaed cynigion i ohirio'r penderfyniad ar y sail ieithyddol ganlynol:

- Cael mwy o amser i gwblhau asesiad iaith annibynnol a derbyn mwy o wybodaeth arbenigol ym maes cynllunio.
- Gohirio'r penderfyniad er mwyn rhannu gwybodaeth gydag Aelodau newydd a gwneud gwaith pellach ar y canllawiau atodol, yn enwedig y canllaw iaith.

5 Roedd canlyniad y bleidlais ar yr argymhelliad yn gyfartal.

6 Defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw o blaid yr argymhelliad.

*7* Penderfyniad y Cyngor oedd mabwysiadu *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 I 2026.*

8 Ychwanegwyd gwelliant bod paratoi'r *Canllaw Cynllunio Atodol newydd Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy* i dderbyn blaenoriaeth.

**Cyfarfod Briffio gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd – 22 Medi 2017**

9 Cynhaliwyd Cyfarfod Briffio gan yr *Aelod Cabinet Amgylchedd* i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Iaith ar *Drefniadau Ymgynghori, Craffu a Mabwysiadu'r Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy*.

10 Nodwyd ei bod yn bwysig llunio Canllaw a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth glir ac na ddylid brysio I gwblhau dogfen ar ras.

11 Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i ystyried sut orau i gyfrannu at y gwaith.

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

12 Lluniwyd cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* ar 8 Tachwedd 2017.

13 Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 7 Aelod o Gyngor Gwynedd a 7 Aelod o Gyngor Ynys Môn.

14 Prif swyddogaethau'r Pwyllgor yw:

- Derbyn yr *Adroddiad Monitro Blynyddol* a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor.
- Mabwysiadu'r *Canllawiau Cynllunio Atodol* ar gyfer y *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* sy'n gyffredin i'r ddau Gyngor.
- Bod yn gyfrifol am adolygu'r *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd*.
- Cyflwyno'r *Adroddiad Adolygu* a'r *Cytundeb Cyflawni* diwygiedig ar gyfer y *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* i'r ddau Gyngor gytuno arnynt.
- Bod yn gyfrifol am ddiwygio'r *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* a chyflwyno'r *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* diwygiedig i'r ddau Gyngor i'w mabwysiadu.
- Derbyn a chynghori ar *restr ffi ardoll* ddrafft ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus ac ar argymhellion yr Arolygwr cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet/Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.
- Derbyn a chytuno ar adroddiad blynyddol ynghylch y drefn cyd-lywodraethu ac ariannu.
- Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor I gyflawni ei swyddogaethau.

15 O safbwynt Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n effeithio ar ardal weinyddu un Awdurdod yn unig, bydd y rhain yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er gwybodaeth yn unig.

16 Mewn amgylchiadau fel hyn bydd yna ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Awdurdod arall.

17 Bydd eglurhad o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol yn amlinellu pam ei fod yn berthnasol i ardal weinyddu un Awdurdod yn unig.

18 Mae'n bwysig nodi y bydd materion mabwysiadu unrhyw Ddiwygiad o'r *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* yn cael eu cadw i'r naill Gyngor a'r llall yn unigol.

19 Bydd materion yn ymwneud â Chraffu yn cael eu cadw gan y naill Awdurdod a'r llall.

**<u>Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – 17 Tachwedd 2017</u>**

20 Sefydlwyd y *Panel Cynllun Datblygu ar y Cyd* yng Nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd ar 17 Tachwedd 2017.

21 Yr un aelodaeth sydd i'r Panel a'r Pwyllgor.

22 Mae'n weithgor gweithredol, gyda swyddogaeth o hwyluso'r gwaith o greu consensws ar faterion allweddol.

23 Amcanion y Panel yw:

- Llywio penderfyniad y Pwyllgor ar yr *Adroddiadau Monitro Blynyddol* ac *Adroddiad Adolygu'r Cynllun*.
- Cyhoeddi *Canllawiau Cynllunio* drafft.
- Cynorthwyo'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau am gynnwys diwygiedig y *Cynllun Datblygu Lleol*.
- Cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflwyno argymhelliad ar *restr ffi ardoll* I Gabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn.

- Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

24 Cychwynnodd ar ei waith ar 1 Chwefror 2018.

Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Briff ac Amserlen yr ymchwiliad

25 Sefydlwyd yr Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 7 Rhagfyr 2017 ac fe ddewiswyd 3 aelod o'r Cyngor i wasanaethu ar Weithgor yr Ymchwiliad.

26 Cychwynnodd ar ei waith ar 9 Ionawr 2018.

**Pwyllgor Craffu Cymunedau 22 Chwefror 2018**

Adroddiad Pwyllgor 22.2.18

27 Cyflwynwyd adroddiad y Gweithgor i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Chwefror 2018 ac fe fabwysiadwyd yr Argymhellion canlynol:
(Nid oes modd ymhelaethu ar bwyntiau gan fod y Gwasanaeth Cynllunio'n nodi eu dymuniad i gadw'r manylion yn gyfrinachol ar hyn o bryd). Felly yn gryno:

- Mae angen datganiad clir bod angen i'r Datblygwr fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.
- Mae angen nodi bod angen cynnal Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar bob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.
- Mae'r Aelodau'n bryderus ynglŷn ag ieithwedd a diwyg y ddogfen ymgynghorol drafft. Mae'n anodd gweld sut bod disgwyl i'r cyhoedd ddeall y ddogfen ar ei ffurf bresennol a chyfrannu'n ystyrlon i'r ymgynghoriad
- Mae angen manylion clir am fethodoleg cynnal Asesiad Effaith Iaith. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r Asesiad. Dylid cynnwys manylion llawn am y fethodoleg yn yr Ymgynghoriad.
- Yn yr un modd mae amwysedd yn y disgrifiadau o Ddatganiad Iaith Gymraeg, a pherthnasedd y camau lliniaru.
- Mae angen disgrifiad cliriach o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o arbenigwr ieithyddol o safbwynt y Cyngor ac unigolion neu sefydliadau allanol a'u rôl.
- Mae'r Aelodau'n ystyried bod bwriad y Gwasanaeth Cynllunio I gyflwyno adroddiad llawn o holl sylwadau'r ymgynghoriad a drafft diwygiedig o'r Canllaw i Aelodau'r Gweithgor erbyn 31 Mai 2018 yn uchelgeisiol. Gofynnir am gadarnhad o'r gallu i gyflawni hyn ar amser.

__**Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – 22 Mawrth 2018**__ – ATODIAD 2 (er gwybodaeth)

28 Cyflwynwyd adroddiad y Gweithgor i'r Panel gan gynnwys yr argymhellion canlynol:

**1A Bod angen datganiad clir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr fynd i *ymgynghoriad cyhoeddus* ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.**

**1B Bod angen nodi'n glir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr gyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.**

**2 Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Cynllunio Ieithyddol* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**3 Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Ymchwil a Dadansoddeg* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**4 Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Ymgysylltu ac Ymgynghori* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**5 Bod Aelodau'r Panel yn gofyn am ymestyn yr *Amserlen* os oes angen er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf posibl.**

## Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau 19 Ebrill 2018 (heddiw)

**29 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau:**

**a) Ystyried cynnwys yr Adroddiad ac Atodiad 1.**

b) **Penderfynu ar y camau nesaf**.

**Atodiad 1 - Argymhellion Gweithgor Craffu – Cynllunio a'r iaith Gymraeg**

**<u>Cefndir</u>**

1 Fe wnaeth Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyfarfod ar 22 Mawrth 2018. Cytunodd Cadeirydd y Panel i'r Gweithgor Craffu gyflwyno adroddiad 'Paratoi ar gyfer Ymgynghori' i'r Panel. 'Roedd yr adroddiad yma yn cynnwys cyfres o argymhellion i'r Panel ystyried. Cafodd Cyng. Gruff Williams, Cyng. Aled Evans, Cyng. Simon Glyn a Gareth H. James gyfle i gyfarch y Panel ac ateb cwestiynau. Gofynnwyd am ymateb y Panel i'r argymhellion erbyn 6ed Ebrill 2018.

2 Bu'r Panel gyfarfod yn flaenorol ar 26 Ionawr a 1 Chwefror i ystyried drafft cyntaf o'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Yn unol â threfniadau mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, fe dderbyniwyd sylwadau oddi wrth yr Uwch Dim Arweinyddiaeth. Cafodd y Canllaw ei ddiwygio i ymateb i sylwadau'r Panel a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn ogystal â chanfyddiadau cychwynnol y Gweithgor Craffu (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Chwefror 2018), pan yn briodol i wneud hynny. Rhoddodd y Panel sylw i'r Canllaw diwygiedig a'r trefniadau cychwynnol ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus amdano ar 22 Mawrth, ochr yn ochr ag argymhellion y Gweithgor Craffu.

**<u>Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i argymhellion y Gweithgor Craffu</u>**

| | **Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg** | **Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | **Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 1a | Bod angen datganiad clir yn y Canllaw bod angen i'r datblygwr fynd i **ymgynghoriad cyhoeddus** ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig. | Cytunir bod ymgysylltu ac ymgynghori â'r cymunedau a budd-ddeiliaid amrywiol eraill yn bwysig wrth ystyried datblygiad arfaethedig yn y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio ac ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ymgynghorol yn mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'r Gweithgor yn argymhelliad 1a. Nid yw'r Canllaw yn mynd tu hwnt i ofynion rheoliadau cynllunio ynglŷn ag ymgynghori cyhoeddus cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae'n rhoi pwyslais ar ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid | **Nid yw'n glir i Aelodau'r Gweithgor beth yw'r datganiad clir yn y Canllaw.**<br><br>**Mae Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru'n nodi bod rhaid cynnal ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad o 10 o dai.**<br><br>**Nid oes gwahaniaeth p'un ai ydi'r datblygiad wedi'i ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol neu beidio.** |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | eraill beth bynnag ydi'r datblygiad (tai a chyflogaeth/ masnachol) a lle bynnag mae safle'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Yn sgil derbyn sylwadau'r Panel, Uwch Dim Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn, a chanfyddiadau cychwynnol y Gweithgor Craffu i Bwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd, nodwyd bod rhannau perthnasol o'r Canllaw wedi cael ei addasu i wella eglurder ynglŷn â'r mater yma.<br><br>Mae Diagram 5 newydd yn Adran 2 o'r Canllaw yn nodi disgwyliadau'r Awdurdodau am ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y cam cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae'n nodi gofynion rheoliadau cynllunio i ddatblygiad 'mawr' mewn Canolfannau, Pentrefi a Chefn Gwlad ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio. Yn nhermau'r gofynion cynllunio statudol diffinnir datblygiad 'mawr' fel:<br><br>(i) datblygiad tai o 10 neu fwy o unedau neu lle mae arwynebedd y safle yn 0.5 ha neu fwy (os na wyddys faint o unedau tai fydd ar y safle); | **Dylid nodi hynny'n glir a syml yn y Canllaw.** |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | (ii) darparu adeiladau (au) lle mae'r arwynebedd llawr a gaiff ei greu yn fwy na 1,000 m sg; neu<br>(iii) datblygiad ar safle sydd gan arwynebedd o 1 ha neu fwy.<br><br>Felly, mae'n ofynnol ymgynghori yn gyhoeddus am ddatblygiad 'mawr' yn lle bynnag mae o wedi ei leoli, boed yn ardal drefnol neu ardal wledig, sy'n wahanol i, a thu hwnt i ofynion argymhelliad y Gweithgor.<br><br>Pan nad yw rheoliadau cynllunio yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus statudol mae'r Canllaw (yn niagram 5 newydd) yn nodi'r angen i ymgeisydd ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid perthnasol am ddatblygiad 'bach' (tai a chyflogaeth/ masnachol) lle bynnag mae o wedi cael ei leoli.<br><br>Pan fydd angen Datganiad Iaith Gymraeg, mae paragraff 13 yn y fethodoleg a roddir yn Atodiad 7 i'r Canllaw yn nodi disgwyliadau'r Awdurdodau bod yr ymgeisydd yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda'r gymuned leol am y cynnig, beth bynnag ydi ei faint neu ei leoliad.<br><br>Pan fydd angen adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, mae paragraff 8 o'r fethodoleg a roddir yn Atodiad 8 i'r Canllaw yn nodi | |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori fel rhan o'r holl broses o ymgymryd ag asesiad effaith iaith Gymraeg. Mae paragraff 15 o'r fethodoleg yn son mwy am y drefn ymgysylltu ac mae'n cyfeirio'n ôl i Ddiagram 5 newydd.<br><br>Penderfyniad y Panel - yn sgil yr addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i ymateb i sylwadau blaenorol, ni chredir bod angen newid ychwanegol. | |
| 1b | Bod angen nodi'n glir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr gyflwyno **Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg** ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus. | Polisi PS 1 y Cynllun sy'n pennu pryd fydd angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg a phryd fydd angen cyflwyno adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyda cheisiadau cynllunio. Ceir copi o Bolisi PS 1 yn Atodiad 1 i'r Canllaw.<br><br>Yn sgil derbyn sylwadau'r Panel, Uwch Dim Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn, a chanfyddiadau cychwynnol y Gweithgor Craffu i Bwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd, mae rhannau perthnasol o'r Canllaw wedi cael ei addasu i wella eglurder ynglyn â'r mater yma.<br><br>Pan nad yw Polisi PS 1 yn gofyn am Ddatganiad nac Asesiad mae'r Canllaw yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer y datblygiadau sy'n disgyn o dan y trothwyon. Cyfeirir at Ddiagram 3 (newydd), Diagram 5 (newydd) ac Atodiad 5 | **Mae Aelodau'r Gweithgor o'r farn y dylai unrhyw ymgynghoriad ar 10 tŷ a rhagor/5 yng nghefn gwlad, boed hynny yn y Cynllun neu ar hap gynnwys Asesiad Iaith. Dylid nodi hyn yn glir yn y Canllaw.**<br><br>Nodir yn Atodiad 8 o'r Canllaw drafft bod Asesiad o Gynaliadwyedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi cael ei **ddylanwadu** gan Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.<br>**Sut mae wedi cael ei ddylanwadu**?<br><br>Mae 3 cam yn cael ei nodi ar gyfer cynnal Asesiad:<br>1. Adnabod ac asesu'r wybodaeth **waelodlin** perthnasol<br>- **Pa wybodaeth a ystyriwyd ar gyfer y CDLl?** |

| | **Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg** | **Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | **Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor** |
|---|---|---|---|
| | | – y drefn sgrinio. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod pob datblygiad perthnasol yn rhoi ystyriaeth i'w effaith ar / gyfraniad i gymunedau.<br><br><u>Penderfyniad y Panel</u> - yn sgil yr addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i ymateb i sylwadau blaenorol, ni chredir bod angen newid ychwanegol. | - **Pa wybodaeth sydd angen ei ystyried cyn cyflwyno Cais Cynllunio?**<br><br>2. Asesu **effaith** y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg<br>- **Pa wybodaeth a ystyriwyd ar gyfer y CDLl?**<br>- **Pa wybodaeth sydd angen ei ystyried cyn cyflwyno Cais Cynllunio?**<br><br>3. Lle'n briodol adnabod **mesurau lliniaru, diogelu, gwella a lledaenu**<br>- **Pa fesurau a ystyriwyd ar gyfer y CDLl?**<br>- **Pa fesurau sydd angen eu hystyried cyn cyflwyno Cais Cynllunio?**<br>- **Ydi'r mesurau'n gymesur â'r effaith tebygol?** |
| 2 | Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes **Cynllunio Ieithyddol** wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd. | Cytunir bod angen cyngor ac arweiniad gan fudd-ddeiliaid amrywiol wrth baratoi pob un o'r Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi arweiniad a chyngor i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio a swyddogion cynllunio a'r Pwyllgorau Cynllunio ynglŷn â defnyddio'r polisïau perthnasol. Mae'r adroddiad sy'n cyflwyno'r Canllaw | Mae'n ymddangos bod y Panel yn ystyried mai rôl ymylol sydd i arbenigwyr wrth baratoi ar gyfer Ymgynghori.<br><br>**Mae Aelodau'r Gweithgor o'r farn bod y ddogfen ddrafft yn anaddas ar ei ffurf bresennol.** |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | Cynllunio Atodol yn cadarnhau bod y gwaith o'u paratoi wedi bod yn destun mewnbwn gan sawl swyddog arbenigol o fewn y ddau Gyngor.<br><br>Yn achos paratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol yma, mae'r gwaith paratoi wedi golygu cael mewnbwn manwl gan Swyddogion Cynllunio a Swyddogion Datblygu Iaith yn y ddau Gyngor. Cafwyd sgyrsiau hefyd gyda swyddog o Fenter Iaith Môn a swyddog o Isadran Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi gallu manteisio ar sesiynau am gynllunio ieithyddol gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2015.<br><br>Nododd y Panel bod y Cynllun Ymgynghori ar gyfer y Canllaw yma yn cyfeirio at ymgynghori gyda Swyddfa Comisiynydd yr iaith Gymraeg ac Isadran Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, yn ogystal â rhoi cyfle i grwpiau diddordeb arbennig gyfrannu i'r broses o baratoi'r Canllaw terfynol.<br><br><u>Penderfyniad y Panel</u> - yn sgil yr addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i ymateb i sylwadau blaenorol a'r trefniadau ar gyfer cael barn arbenigol yn ystod y cyfnod ymgynghori | **Mae cyfle i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fod yn arloesol yn y maes yma gan drafod y ddogfen drafft yn fanwl gydag arbenigwyr cyn ymgynghori'n gyhoeddus a gyda budd-ddeiliaid.** |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a’r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | cyhoeddus, ni chredir bod angen newid ychwanegol. | |
| 3 | Bod Aelodau’r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes **Ymchwil a Dadansoddeg** wrth baratoi’r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd. | O ran yr argymhelliad yma nodwyd mai rôl y Canllaw ydi rhoi arweiniad ynglŷn â sut i ddefnyddio Polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid ei bwrpas ydi cyflwyno adroddiad am waith ymchwil.<br><br>Noder bod y rhesymeg du cefn i’r argymhelliad yma yn cyfeirio at waith ymchwil gafodd ei gomisiynu gan y ddau Gyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gyda mewnbwn Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae’r rhesymeg yn cyfeirio’r benodol at un o’r negeseuon o’r gwaith ymchwil hwnnw. Mae’r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â gwaith yn gysylltiedig â Datganiad ac Asesiad yn adnabod mewnfudo (ac allfudo) fel materion allweddol a fyddai angen i’r ymgeisydd ystyried (gyda chyngor ac arweiniad gan berson cymwys) wrth lunio’r datblygiad arfaethedig.<br><br>Cytunir bod rhoi ystyriaeth fanwl i ddata a gwybodaeth yn bwysig wrth ystyried effaith datblygiad ar gymunedau. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr o ddogfennau a gyfeirir atynt yng nghorff y Canllaw. Rhoddir dolen i dudalennau gwe lle gellir dod o hyd i’r | Nodir gan y Panel bod cyfeiriadau at ddogfennau a rhestrau yn y Canllawiau.<br><br>**Mae Aelodau’r Gweithgor o’r farn bod hyn yn annigonol a bod angen rhoi arweiniad mwy penodol a chlir yn y Canllaw cyn ymgynghori arno.**<br><br>Nodir bod swyddogion cymwys o fewn y ddau Gyngor yn defnyddio ffynonellau i wirio Datganiad ac Asesiad.<br><br>**Mae Aelodau’r Gweithgor o’r farn bod angen mwy o fanylion er mwy rhoi cadernid a sicrhau hygrededd i’r gwaith:**<br><br>1. **Teitl swyddi**<br>2. **Swydd Ddisgrifiadau**<br>3. **Manylion neu fatrics am sut mae ceisiadau’n cael eu gwirio.** |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | dogfennau. Felly maent yn berthnasol i destun y Canllaw.<br><br>Mae Atodiad 3 yn rhoi rhestr o ffynonellau cydnabyddedig. Cafwyd cymorth gan Isadran Gymraeg Llywodraeth Cymru i roi'r rhestr at ei gilydd.<br><br>Pwysleisir bod disgwyl i ymgeisydd wneud ymholiadau trylwyr am y ffynonellau adeg paratoi'r cais cynllunio. Yn yr un modd bydd swyddogion cymwys o fewn y ddau Gyngor yn defnyddio'r ffynonellau i wirio'r Datganiad ac Asesiad. Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn gyfle i unrhyw un awgrymu ffynonellau data a gwybodaeth ychwanegol.<br><br>Disgwylir i'r ymgeisydd, gyda chymorth person cymwys, ddefnyddio'r data a gwybodaeth yn y ffynonellau perthnasol wrth iddynt ystyried beth ydi effaith y datblygiad arfaethedig ar y gymuned/ ardal ddylanwad a phenderfynu sut ellir addasu'r datblygiad neu gyflwyno mesurau lliniaru i sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir. Bydd y Gwasanaeth Cynllunio, gyda chymorth swyddogion cymwys mewn meysydd perthnasol, yn gwirio'r defnydd o wybodaeth a data gan yr ymgeisydd cyn dod i gasgliad am y datblygiad arfaethedig. | |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | Penderfyniad y Panel - yn sgil yr addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i ymateb i sylwadau blaenorol, ni chredir bod angen newid ychwanegol. | |
| 4 | Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes **Ymgysylltu ac Ymgynghori** wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd. | Mae Atodiad 9 i'r Cynllun wedi adnabod pa ganllawiau cynllunio atodol newydd sydd yn angenrheidiol i gefnogi'r Cynllun. Cafodd y rhestr ei baratoi yn ystod cyfnod paratoi'r fersiwn drafft cyntaf o'r Cynllun (sef y Cynllun Adnau). Nid rôl y Canllaw unigol ydi cofnodi hynny. Nid rôl y Canllaw chwaith ydi cofnodi pam na chafodd y Canllaw ei baratoi ochr yn ochr â'r Cynllun. Cafodd sgôp drafft pob un o'r Canllawiau eu paratoi a'u cyhoeddi yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun (2016).<br><br>Nodwyd bod y Panel wedi gwneud sylwadau am ddrafft cyntaf o'r Canllaw er mwyn gwella eglurder y Canllaw. Nodwyd bod newidiadau wedi cael eu gwneud i gyfarch y gwendidau a gafodd eu hadnabod ganddo, yn ogystal â materion a godwyd gan yr Uwch Dim Arweinyddiaeth (Cyngor Sir Ynys Môn) â chanfyddiadau cychwynnol y Gweithgor Craffu yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22/2/18. | Nodir gan y Panel bod newidiadau wedi cael eu gwneud i gyfarch y gwendidau a gafodd eu hadnabod yn y drafft cyntaf.<br><br>**Byddai'n dda i weld beth yw'r newidiadau hynny, ac a ydynt yn sylweddol.**<br><br>Er i'r Panel nodi yn ei gyfarfod gydag Aelodau'r Gweithgor ar 22 Mawrth ei fod am roi ystyriaeth i ddwy ddogfen a gyflwynwyd gan Aelodau'r Gweithgor i'w sylw. Nid yw'n ymddangos bod y Panel wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r dogfennau hynny.<br><br>Dyma'r ddwy ddogfen a gyflwynwyd:<br><br>**Egwyddorion Cenedlaethol ar Ymgysylltu ac Ymgynghori**<br>https://participation.cymru/cy/egwyddorion/<br><br>**Rhoi'r Egwyddorion ar Waith**<br>https://participation.cymru/wp-content/uploads/2017/02/nationalprinciplesc |

| | Argymhelliad Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | Ymateb Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Sylwadau a Chwestiynau Pellach gan y Gweithgor |
|---|---|---|---|
| | | Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn gyfle i gael barn gan fudd-ddeiliaid amrywiol am y Canllaw.<br><br>Nodwyd bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd wedi paratoi Cynllun Ymgynghori drafft gyda golwg ar y safonau a gyfeirir atynt ac mewn ymgynghoriad â swyddogion ymgysylltu'r Cyngor. Mae'r trefniadau egluro pryd a sut ddylid cyflwyno sylwadau, sut caiff y sylwadau eu hystyried (pwy a phryd) a sut i gael gwybod am y penderfyniad terfynol am gynnwys y Canllaw.<br><br>Penderfyniad y Panel - yn sgil yr addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i ymateb i sylwadau blaenorol, ni chredir bod angen newid ychwanegol. | **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd roi ystyriaeth fanwl i'r dogfennau yma cyn bwrw ymlaen gyda'r Ymgynghoriad Cyhoeddus** |
| 5 | Bod Aelodau'r Panel yn gofyn am ymestyn yr **Amserlen** os oes angen er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf posibl. | Penderfyniad y Panel – yn seiliedig ar yr uchod nid oes angen ymestyn yr amserlen. | **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyfarch yr argymhellion yn llawn cyn bwrw ymlaen gyda'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.** |

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn |
| Dyddiad | 22 Mawrth 2018 |
| Teitl | **Paratoi ar gyfer Ymgynghori** |
| Disgrifiad Cryno | **Adroddiad *Gweithgor Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*** <br> **Mae'r Gweithgor yn cefnogi'r Panel i ddatblygu'r *Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy*** <br><br> **Dyma'r Set Gyntaf o Argymhellion i'ch cynorthwyo gyda'r gwaith.** |
| Cadeirydd | Cynghorydd Gruffydd Williams |
| Aelodau'r Gweithgor | Cynghorwyr Gruffydd Williams, Simon Glyn ac Aled Evans |
| Swyddogion | Gareth James – Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu <br> Lowri Haf Evans – Swyddog Cefnogi Aelodau |

A wnewch chi ymateb i'r Argymhellion isod erbyn **6 Ebrill 2018**, os gwelwch yn dda:

**1A** **Bod angen datganiad clir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr fynd i *ymgynghoriad cyhoeddus* ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.**

**1B** **Bod angen nodi'n glir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr gyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.**

**2** **Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Cynllunio Ieithyddol* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**3** **Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Ymchwil a Dadansoddeg* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**4** **Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Ymgysylltu ac Ymgynghori* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.**

**5** **Bod Aelodau'r Panel yn gofyn am ymestyn yr *Amserlen* os oes angen er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf posibl.**

## 1 <u>Siaradwyr Cymraeg</u>

## Mae cynyddu nifer a chanran siaradwyr a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn flaenoriaeth bwysig i drigolion a Chyngor Gwynedd

**<u>Argymhellion</u>**

**1A Bod angen datganiad clir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr fynd i *<u>ymgynghoriad cyhoeddus</u>* ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.**

**1B Mae angen nodi'n glir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr <u>gyflwyno</u> *<u>Datganiad Iaith Gymraeg</u>* ac *<u>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg</u>* ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.**

1.1 Mae *Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn* yn nodi y bu gostyngiad o 11% mewn siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd rhwng 1981 a 2011.

1.2 Mae'r gostyngiad yng Ngwynedd yn uwch na lefel Cymru gyfan, ble nad oedd gostyngiad o gwbl yn ystod yr un cyfnod.

1.3 Mae *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023* yn nodi mai un nodwedd unigryw o'r Sir yw ei Chymreictod.

1.4 Mae un o flaenoriaethau'r Cynllun yn nodi ymrwymiad y Cyngor I weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg; ond yn nodi na fydd hynny'n ddigonol os am gadw'r nodwedd o Gymreictod unigryw yn fyw yn y Sir.

1.5 Un o brif ganlyniadau *Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026* yw anelu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg.

1.6 Mae *Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru* yn nodi bod angen cynnal ymgynghoriad ar bob datblygiad sylweddol o 10 o dai neu fwy, os ydynt wedi cael eu dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol neu beidio. Mae hyn yn golygu bod angen i'r datblygwr gynnal ymgynghoriad ar bob cais am 10 o dai neu fwy.

## 2 Cynllunio Ieithyddol

### Mae sicrhau mewnbwn arbenigol annibynnol ym maes Cynllunio Ieithyddol yn hanfodol i sicrhau hygrededd i'r Canllaw newydd.

**Argymhelliad**

**2 Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes *Cynllunio Ieithyddol* wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y ddogfen drafft.**

2.1 Mae'r *Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol - Ail Argraffiad - Awst 2015* yn nodi, '…*Bydd yn fwy effeithlon os caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu llunio ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) eraill lle y bo'n bosibl. Fel arall, gallai grwpiau o ACLl nodi ar y cyd enghraifft o arfer da i'w mabwysiadu fel dull gweithredu enghreifftiol, wedi'i deilwra i'r amgylchiadau lleol*. (7.3.4)'

2.2 Yn ystod 2005, daeth 16 o awdurdodau cynllunio (gan gynnwys Gwynedd ac Ynys Môn), Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd i gydweithio ac ym mis Rhagfyr 2005 fe gyhoeddwyd ffrwyth eu gwaith yn y ddogfen, *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.*

2.3 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyhoeddiad yma wrth ddatblygu'r Canllaw Cynllunio Atodol cyfredol ar gyfer Gwynedd, *Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* (Tachwedd 2009).

2.4 Er bod cyhoeddiad 2005 yn ddefnyddiol, mae wedi dyddio cryn dipyn ac mae angen cynnal gwaith arbenigol mwy diweddar fel y gellir llunio Canllaw a fydd yn elwa o wybodaeth fwy diweddar ac arbenigedd cynllunio ieithyddol.

2.5 Mae cyhoeddiad '2005' yn nodi (Atodiad C 3.11), '….*Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd defnyddio arwyddocâd 'uchel', 'canolig' neu 'isel' i nodi pwysigrwydd iaith, a phenderfynir hyn ar sail lleoliad arfaethedig y datblygiad ac ar sail canlyniadau'r ymarfer Proffil Ieithyddol*.'

2.6 Mae Aelodau'r Gweithgor o'r farn bod angen dynodi pob un o Gymunedau Gwynedd fel lefel 'uchel' o ran pwysigrwydd iaith.

2.7 Nid oes disgwyl i Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn feddu ar y math o adnoddau ac arbenigedd sydd ei angen ar gyfer yr elfen hanfodol yma o'r gwaith.

2.8 Awgrymir bod y cam yma'n flaenoriaeth fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ymgynghori.

## 3 Ymchwil a Dadansoddeg

**Mae angen gwybodaeth a data cadarn am gryfderau a gwendidau'r Canllaw cyfredol er mwyn llunio Canllaw newydd a fydd yn cyfarch unrhyw wendidau ac yn adeiladu ar unrhyw gryfderau.**

**Argymhelliad**

**3 Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes Ymchwil a Dadansoddeg wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y ddogfen drafft.**

3.1 Fe gomisiynwyd arolwg ar y cyd gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Wasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg Cyngor Gwynedd yn 2014.

3.2 Cyhoeddwyd Adroddiad ym mis Gorffennaf 2014 sef *Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn.*

3.3 Un o negeseuon allweddol yr adroddiad er enghraifft yw bod '*mewnfudo yn gwanhau sefyllfa'r iaith Gymraeg*…(1.6.6)'

3.4 Nid yw'n glir a roddwyd ystyriaeth i'r adroddiad yma gan Aelodau'r Panel wrth i chi baratoi'r Canllaw drafft newydd a sut mae'r canllaw yn cyfarch y mater yma.

3.5 Mae Atodiad 3 o'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd drafft yn rhestru 19 o ddogfennau y byddai'n fuddiol i'r Datblygwr eu defnyddio fel sail i lunio Datganiad Iaith ac Asesiad Iaith.

3.6 Nid ydyw'n glir i Aelodau'r Gweithgor beth yw union berthnasedd y dogfennau yma a pha sylw a roddwyd iddynt gan Aelodau'r Panel wrth lunio'r Canllaw drafft newydd.

3.7 Nid yw'n glir i Aelodau'r Gweithgor pa ddata a gwybodaeth gefndirol a ystyriwyd wrth lunio'r Canllaw drafft.

## 4 <u>Ymgynghori ac Ymgysylltu</u>

**Er mwyn uchafu gwerth drwy Ymgysylltu ac Ymgynghori'n effeithiol, byddai'n fuddiol i dderbyn cefnogaeth annibynnol ac arbenigol.**

**Argymhelliad**

**Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes <u>Ymgysylltu ac Ymgynghori</u> wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y ddogfen drafft.**

4.1 Mae'r *Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol* yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar Ganllawiau Cynllunio Atodol:

- '*Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol adolygu effeithiolrwydd a pherthnasedd eu Canllawiau Cynllunio Atodol presennol ar ddechrau'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol.*' (7.3.2)
- '*Pan fydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â goblygiadau'r cynllun neu bolisi penodol (CCAau allweddol), ac y byddent yn helpu i'w deall, dylid eu paratoi ac ymgynghori arnynt ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol*.'(7.3.6)

4.2 Nid yw'n glir i Aelodau'r Gweithgor a wnaed adolygiad manwl o'r Canllaw cyfredol ar ddechrau'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

4.3 Os na wnaed dylid nodi hynny ac esbonio'r rheswm dros y penderfyniad.

4.4 Os cynhaliwyd adolygiad manwl dylid nodi'r manylion fel rhan o'r dogfennau ymgynghori ar y Canllaw newydd.

4.6 Nid yw'n glir i Aelodau'r Gweithgor pam na baratowyd ac ymgynghorwyd ar y Canllaw Cynllunio Atodol a'r Cynllun Datblygu Lleol yr un pryd.

4.7 Dylid esbonio'r rheswm am hyn yn y dogfennau ymgynghori.

4.8 Fe gynhaliwyd Ymarferiad Ymgysylltu gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ystod haf 2016.

4.9 Cyn mynd ati i lunio'r Canllaw Cynllunio newydd roedd yr Uned yn '*awyddus i gael barn rhan-ddeiliaid amrywiol sydd wedi cael profiad o ddefnyddio'r CCA cyfredol a/neu sydd gan ddiddordeb ym mha fath o arweiniad a ddylid ei gynnwys yn y CCA newydd*'.

4.10 Cyflwynwyd Adroddiad cryno gan yr Uned I'ch sylw fel Panel ar 1 Chwefror 2018.

4.11 Mae Aelodau'r Gweithgor o'r farn bod gwybodaeth ansoddol ddefnyddiol yn y manylder ac y byddai'n fuddiol i chi eu hystyried yn llawn wrth lunio'r Canllaw drafft cyn ymgynghori.

4.12 Dyma'r prif elfennau y byddai'n werth eu gwyntyllu:

- Sut mae'r Canllaw newydd yn helpu'r cyhoedd a'r datblygwr i ddeall sut all datblygiad gyfrannu tuag at gynnal a chynyddu nifer y cymunedau sydd á 70% a throsodd o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg?
- Sut mae gwneud y Canllaw yn glir a diamwys?
- Sut ellir gosod safon broffesiynol a chyson i lunio a dyfarnu'r Datganiadau ac Asesiadau Iaith?
- Sut fyddwch chi'n esbonio'r fethodoleg yn glir
- Sut fyddwch chi'n gwybod os ydi'r Canllaw yn llwyddiannus neu beidio?

4.13 Mae Aelodau'r Gweithgor yn awgrymu y byddai cynnwys enghreifftiau o ddatblygiadau yn help i egluro rhai elfennau o'r Canllaw.

4.14 Mae Cyfranogaeth Cymru yn sefydliad cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad ar faterion ymgysylltu ac ymgynghori. Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i gynnal safonau'r *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu á'r Cyhoedd yng Nghymru.*

**Atodiad**

**Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau 22.2.18**

**Rhestr dogfennau defnyddiol**

Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn 2017

Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026

Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Awst 2015)

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2009)

Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn (2014)

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Crynodeb Ymgysylltiad 2016

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **19 Ebrill, 2018** |
| **Teitl** | **Torri Gwair Tiroedd Agored y Cyngor** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I geisio barn y Pwyllgor Craffu ar yr angen gwneud arbediad pellach yn y gwasanaeth.** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o'r gostyngiad sydd wedi bod yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf i'r gyllideb ar gyfer cynnal tiroedd agored y Cyngor. Yn ychwanegol i sicrhau arbedion yn y gwasanaeth, bu toriadau yn y gyllideb yn dilyn ymarferiad cyhoeddus Her Gwynedd yn Hydref 2015, a phenderfyniad y Cyngor Llawn ym Mawrth 2016 i gymeradwyo cyfres o doriadau i wasanaethau'r Cyngor er mwyn cyfarch y bwlch yn yr arian dderbynnir gan y Llywodraeth i gyllido gwasanaethau lleol.

1.2 Mewn cyflawni'r arbedion, a derbyn y toriadau yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd, mae'r tabl isod yn crynhoi effaith hyn ar safonau cyffredinol torri gwair tiroedd agored y Cyngor.

| | Darpariaeth | Effaith | Gwireddwyd | Arbediad |
|---|---|---|---|---|
| (i) | Torri Gwair Gwledig (Ymylon Ffyrdd tu allan i gyfyngiad 30m.y.a) | Newid o amlder 2 doriad y flwyddyn i 1 (heblaw ar gyffyrdd prysur a llefydd angen gwelededd) | Ebrill 2015 | £100,000 |
| (ii) | Torri Gwair Trefol (o fewn parthau 30m.y.a) | Newid o amlder 5 toriad y flwyddyn i 3 | Ebrill 2016 | £120,000 |
| (iii) | Meysydd Chwarae (131 mewn nifer) | Newid o amlder 8 toriad y flwyddyn i 6 | Ebrill 2016 | £60,000 |
| (iv) | Mynwentydd (16 mewn nifer) | Newid o amlder 8 toriad y flwyddyn i 6 | Ebrill 2016 | £60,000 |

1.3 Mae £50,000 ychwanegol o arbediad ar gyfer cynnal tiroedd yn ddisgwyliedig (yn 2017/18) ond heb ei gyflawni.

1.4 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas derbyn barn y Pwyllgor Craffu i'r angen hwn.

## 2. YSTYRIAETHAU

2.1 Mae'r gyllideb perthnasol ar gyfer torri gwair trefol a meysydd chwarae oddeutu £391k eleni, gyda yn agos i £29k yn ychwanegol i hyn yn cael ei wario ar ddarparu gwelyau blodau.

2.2 Ar gyfer cyflawni'r £50k arbediad ychwanegol bydd angen ystyried camau fel:

- lleihau amlder torri gwair o 3 toriad i 2 blynyddol ar gyrion pentrefi a threfi
- darparu llai o lecynnau blodau.

2.3 Mae Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o'r anniddigrwydd gyda safon presennol o 3 toriad blynyddol ac yn amlwg bydd gostwng y safon ymhellach yn siŵr o brofi'n gynhennus.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei arweiniad gyda'r angen i wneud toriadau ariannol pellach yn y gwasanaeth hwn fydd ag effaith ar edrychiad ein pentrefi a threfi.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **19 Ebrill, 2018** |
| **Teitl** | **Treial Gorfodaeth Stryd** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu ar y mater ac i dderbyn argymhelliad ar y ffordd ymlaen.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ar 22 Medi, 2016 bu i'r Pwyllgor Craffu dderbyn argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd. Un o'r argymhellion hyn oedd y *'dylai'r Cyngor edrych ar allanoli elfennau o'i waith gorfodi i ategu gwaith y tîm mewnol. Byddai'r gwaith hynny yn canolbwyntio ar orfodaeth a dirwyo sydyn (FPNs) ar sail dim cost i'r Cyngor (dylid treialu hyn am gyfnod o 12 mis yn y lle cyntaf gan ei adolygu ar ôl hynny)'*.

1.2 Yn unol ar argymhelliad hwn, comisiynwyd cwmni allanol i gynnal treial gorfodaeth stryd am flwyddyn. Bu i'r treial gychwyn mis Chwefror eleni ond wedi ychydig ddiwrnodau cytunwyd i gais y cwmni i ddod a'r treial i ben.

1.3 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas diweddaru'r Pwyllgor Craffu o'r sefyllfa ac er mwyn derbyn argymhelliad ar y camau nesaf i'w cymeryd.

**2. YSTYRIAETHAU**

2.1 Sail argymhelliad y Pwyllgor Craffu i gynnal treial oedd bod arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2016, yn dangos bod trigolion yn awyddus i'r Cyngor fod llawer mwy cadarn mewn taclo pobl sy'n gollwng sbwriel ar y stryd neu'n gadael i'w cŵn faeddu llwybrau a phalmentydd. Yn yr arolwg, roedd 55% o'r trigolion gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad yn awyddus i'r Cyngor ddefnyddio cwmni allanol masnachol i gyflawni'r gwaith gorfodi i'r perwyl.

2.2 Yn dilyn ymarferiad cyhoeddus Her Gwynedd, cwtogwyd ar y nifer o staff yn yr Uned Gorfodaeth Stryd o 7 i 5 i gyflawni arbediad o £64,500 y flwyddyn. 'Roedd hyn, yn ogystal, yn sail i'r Pwyllgor Craffu ystyried defnydd o gwmni allanol i gynorthwyo yn y gwaith gorfodaeth a hynny heb gost i'r Cyngor.

**3. OPSIYNAU POSIB**

3.1 Mae'r canlynol yn opsiynau posib i'w ystyried yn dilyn aflwyddiant ceisio cynnal treial gydag un cwmni yn ddiweddar, sef:

(i) Ceisio cwmni allanol masnachol arall i gynnal treial yn y Sir.

*Mae o leiaf 2 gwmni arall yn cynnig y ddarpariaeth er nad ydynt ar hyn o bryd yn weithredol yn y rhan yma o Gymru.*

(ii) Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella ar y ddarpariaeth.

*Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ystyried y ffordd ymlaen gyda gorfodaeth stryd ac mae cyfle efallai i ystyried darpariaeth ar lefel rhanbarthol.*

(iii) Ail ystyried y lefelau staffio presennol yn yr Uned Gorfodaeth Stryd.

*Tebygol bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer cynyddu'r adnoddau.*

(iv) Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff o adrannau eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd.

*Mae hyn eisioes yn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu.*

(v) Ceisio cymorth Heddlu Gogledd Cymru mewn gorfodaeth ar y stryd.

*Mae hyn wedi ei geisio ar sawl achlysur e.e. sefydlu protocol i'r pwrpas, ac mae'n ddarostyngedig i flaenoriaethau ac adnoddau'r Heddlu.*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei argymhelliad ar y ffordd ymlaen er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth i bwrpas sicrhau glendid ac edrychiad ein strydoedd.